



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Mesur y Mynydd: Beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?

ADRODDIAD RHEITHGOR DINASYDDION



Y Rheithgor



Mae Mesur y Mynydd yn fenter a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Digwyddodd y Rheithgor Dinasyddion rhwng 24 a 27 Medi 2018. Draftiwyd yr adroddiad gan Katie Cooke, Rheolwr Prosiect Mesur y Mynydd a Rachel Iredale, Darlennydd mewn Ymgysylltu Cyhoeddus ym Mhrifysgol De Cymru, ar ran y Rheithgor, ac fe'i cymeradwywyd gan bob un o'r Rheithwyr. Cwblhawyd yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2019 a'i gyhoeddi gan Brifysgol De Cymru.

ISBN: 978-1-909838-36-9

Hawlfraint © Prifysgol De Cymru, 2019

Cedwir pob hawl, Ni ddylid atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adfer, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr.

Mae Katie Cooke a Rachel Iredale wedi datgan eu hawl i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Dylunio: USW Print & Design 01443 482 677



Crynodeb

Dyma adroddiad am y Rheithgor Dinasyddion a ddigwyddodd gyda 14 dinesydd o Gymru ym mis Medi 2018. Dros bedwar diwrnod, archwiliodd y rheithwyr y cwestiwn *Beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?* Bu iddynt wrando ar dystiolaeth, holi cwestiynau a chywain cyfres o argymhellion. Mae'r argymhellion yn tynnu sylw at agweddau pwysig o ofal cymdeithasol. Nhw yw'r man cychwyn i broses ar gyfer Llywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector, i sicrhau fod pobl sy'n cael mynediad i ofal a chefnogaeth yn cael profiadau cadarnhaol.

Argymhellion y Rheithgor Dinasyddion

Mae'r Rheithgor yn argymhell:

- 1 Dylai pob person sy'n dod i sylw'r system gofal cymdeithasol, a sectorau perthynol, boed nhw'n blentyn, oedolyn neu'n ofalwr, derbyn cefnogaeth gweithiwr allweddol annibynnol, diduedd a gwybodus, a fydd yn eiriol ar eu rhan ac yn sefyll wrth eu hochr.
- 2 Mae angen i gynlluniau gofal a chefnogaeth barchu deilliannau dymunol yr unigolyn, a bod yn fwy holistig, fel bod y gwasanaethau'n addas i'r person, ac nid y ffordd arall.
- 3 Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i ofalwyr er mwyn eu cydnabod, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel yr asedau hanfodol yr ydynt.
- 4 Rhaid gwneud y trosglwyddiad rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn llai trafferthus a dylid blaenoriaethu'r person ifanc yn well.
- 5 Dylai unigolion a darparwyr gwasanaeth weithio ar y cyd fel partneriaid cyfartal, gan hybu gwneud penderfyniadau da a lleihau'r angen i herio penderfyniadau.
- 6 Mae angen mwy o gysondeb wrth ddarparu gofal cymdeithasol yn strategol ac yn weithredol ar draws Cymru, gyda hwyluso gwell o bartneriaethau a chydweithio.
- 7 Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn fwy tryloyw ac atebol, ac mae angen iddynt fod yn fwy agored i'r cyhoedd.
- 8 Mae angen diffinio cyd-gynhyrchu a'i wreiddio fel ymarfer a ddeallir ac a ddefnyddir gan bawb sy'n ymwneud â chreu, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- 9 Mae angen i brosesau tendro a chomisiynu sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n darparu'n union beth sydd ei angen ar bobl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.
- 10 Mae angen datblygu prosesau ac offer, a'u defnyddio'n effeithiol, i wreiddio gweithio'n dda mewn partneriaethau ac ar y cyd.
- 11 Dylai cyrff statudol ddarparu gwybodaeth glir am eu gwasanaethau ac am y Ddeddf, gan sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad iddi a'i deall, waeth beth fo amgylchiadau, cefndir neu anghenion rhywun.
- 12 Dylid gwella'r system yn gyffredinol er mwyn peidio â pheri fod profiadau pobl yn gymhleth, a'i bod yn hawdd cael y gefnogaeth gywir.
- 13 Mae angen cydnabod gweithwyr y rheng flaen fel asedau hanfodol o fewn y sector gofal cymdeithasol a dylid gwella'u statws, datblygiad proffesiynol a chyflog i adlewyrchu hyn.
- 14 Dylid annog pawb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i gofleidio technoleg newydd.
- 15 Dylai dinasyddion fod yn cymryd rhan ffurfiol mewn mwy o graffu ar y Ddeddf, a hynny'n ddyfnach, i adeiladu hyder yn y sector a sicrhau fod y Ddeddf yn cael ei chyflawni'n gywir.

Cyflwyniad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pobl wrth wraidd y ddarpariaeth, gan roi lle creiddiol yn y ddeddfwriaeth i ddulliau newydd o fynd ati ac o weithio. Er mwyn deall os oedd y Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth yn y manau mwyaf pwysig, ariannwyd Rheithgor Dinasyddion gan Lywodraeth Cymru. Dyma ddull ymchwil sydd wedi ennill ei blwyf gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i archwilio pwnc cymhleth o sawl persbectif. Galluogodd y dull hwn o ymwneud cyhoeddus i Lywodraeth Cymru glywed yn uniongyrchol oddi wrth bobl Cymru a dysgu mwy am weithredu cynnar y Ddeddf.

Y Cwestiwn

Ystyriodd y Rheithgor y cwestiwn 'Beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?'

Deilliodd y cwestiwn hwn o brofiadau am ofal cymdeithasol a gyflwynwyd i brosiect Mesur y Mynydd, rhwng Mai a Gorffennaf 2018. Dangosodd y profiadau hynny pa mor eang a chymhleth yw ymwneud pobl â gofal cymdeithasol, a'r angen i archwilio'r cysyniad o 'yr hyn sy'n cyfri'.

Y Rheithgor

Roedd pob un o'r 14 aelod o'r Rheithgor yn preswyllo yng Nghymru. Cofrestrodd aelodau'r cyhoedd eu diddordeb mewn bod yn aelod o'r Rheithgor gan greu pwll cychwynnol o 42 o bobl. Ar ôl darparu mwy o wybodaeth fanwl am y broses a'r disgwyliadau, disgynnodd y darpar bwll hwn o Reithwyr i 21.

Gwnaed y 21 hyn yn anhysbys gan adael data demograffig yn unig; detholwyd yr unig rai mewn categori demograffig yn awtomatig, er enghraifft os oeddent yn 25 oed neu iau. O'r bobl oedd yn weddill, defnyddiwyd dull dethol ar hap i gwblhau'r Rheithgor.

Bu i'r broses o hunan-ddethol i gofrestru diddordeb mewn bod yn Rheithwr arwain at greu pwll o Reithwyr oedd yn hŷn, yn fwy addysgedig ac yn fwy gwybodus am ofal cymdeithasol nag y byddai grŵp cyfatebol o bobl a detholwyd ar hap.



Proffil y Rheithgor

Rhyw	Gwryw	6
	Benyw	8
Oedran	18 – 24	1
	25 – 44	3
	45 – 64	8
	65+	2
Man preswyllo	Gogledd	2
	De orllewin	6
	De ddwyrain	6
Lefel addysg	Islaw gradd	5
	Graddedig	6
	Ôl-raddedig	3
Statws cyflogaeth	Cyflogedig	4
	Wedi Ymddeol	7
	Di-waith	2
	Myfyriwr	1
Wedi cofrestru'n anabl	Anabl	6
	Heb anabledd	8
Gofalwyr	Gofalwr	7
	Nid yn ofalwr	7



Y Tystion

Cytunodd cyfanswm o 22 o dystion i roi tystiolaeth gerbron y Rheithgor. Atodir copi o'r rhaglen yn Atodiad 1. Roedd y tystion yn cynrychioli ystod eang o farn a phrofiad o bob cwr o'r sector statudol a'r drydedd sector. Yn eu plith roedd chwe defnyddiwr gwasanaeth a gofalwyr a rannodd brofiadau personol â'r Rheithgor, ac un tyst a oedd yn dirprwyo i rannu tystiolaeth gan bobl iau. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau, cyflwynodd y tystion wybodaeth am ryw ddeng munud ac yna caent eu holi gan y Rheithgor. Cynhwysir crynodeb o'r cyflwyniadau yn Atodiad 2. Neilltuwyd amser bob dydd er mwyn i'r Rheithgor allu trafod y dystiolaeth drostynt eu hunain a chyda chymorth yr hwylusydd, i baratoi ar gyfer neu glywed am dystiolaethau'r dydd.

Y Trefnwyr

Trefnwyd y Rheithgor gan Grŵp Llywio Mesur y Mynydd (gweler Atodiad 4) a thynnodd ynghyd ymarferwyr profiadol o feysydd ymchwil, gofal cymdeithasol, y Drydedd Sector a'r sector gyhoeddus. Hwyluswyd y 4 diwrnod ar gyfer y Rheithgor yn ogystal â sesiwn baratoi hanner diwrnod o hyd cyn dechrau, gan Dafydd Thomas, hwylusydd annibynnol â phrofiad sylweddol o weithio gyda'r Drydedd Sector.

Cyllido

Ariannwyd y Rheithgor Dinasyddion gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyllid blwyddyn o hyd i brosiect Mesur y Mynydd. Talwyd am gyflogau'r tîm trefnu, heblaw am Reolwr Prosiect Mesur y Mynydd, gan eu cyflogwyr unigol, neu rhoddwyd eu hamser ar sail wirfoddol.

Y Rheithgor Dinasyddion

Y Rhaglen

Cyfarfu'r Rheithgor am y tro cyntaf ar ddydd Sadwrn 15 Medi am rag-gyfarfod. Pwrpas hwn oedd cyfarfod â'i gilydd am y tro cyntaf, cyflwyno'r hwylusydd Dafydd Thomas, a chytuno ar reolau sylfaenol ynghylch sut y bydden nhw'n gweithredu yn ystod proses y Rheithgor Dinasyddion.

Digwyddodd y Rheithgor Dinasyddion yn Stadiwm Liberty Abertawe rhwng 24 a 27 Medi. Cynlluniwyd y diwrnod cyntaf er mwyn darparu cyd-destun a chefnidir i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar uchelgais y Ddeddf a'r modd y cafodd ei rhoi ar waith yn y dyddiau cynnar. Canolbwyntiodd yr ail ddiwrnod ar wasanaethau ymarferol a gwirionedd darparu a derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Canolbwyntiodd llawer o'r drafodaeth ar y symud rhwng gwasanaethau a'r heriau sy'n wynebu'r sector. Ar y trydydd dydd, tynnwyd sylw at arfer orau a dulliau arloesol; ymysg y tystion roedd pobl a rannodd straeon am sut y gellid cyflawni trawsnewidiad mewn ystod o ffyrdd amrywiol.

Holwyd cyfres o gwestiynau i reithwyr cyn ac ar ôl y Rheithgor. Fel y disgwyliid, dywedodd y Rheithwyr fod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Ddeddf yn uwch wedi profiad y Rheithgor. Gwellwyd eu lefelau hyder ynghylch trafod y Ddeddf yn sylweddol erbyn diwedd y broses hefyd.

Graddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r Ddeddf

	Cyn y rheithgor	Ar ôl y heithgor
Dim		
Ychydig iawn	4	
Gwybod beth ydyw	4	4
Cryn dipyn	5	8
Gwybod llawer	1	2

Graddiwch eich hyder wrth drafod y Ddeddf

	Cyn y rheithgor	Ar ôl y heithgor
Dim	1	
Dim llawer	3	2
Cymedrol	7	3
Hyderus	2	6
Hyderus iawn	1	3

Holwyd y Rheithwyr am eu gobeithion a'u hofnau yng nghyd-destun y profiad, a'u teimladau ynghylch cymryd rhan (gweler Atodiad 3). Dangosodd eu hymatebion fod ganddynt ymdeimlad o gyfrifoldeb wrth ddod at eu rôl a'r gwerth y teimlent y gallai'r broses roi i ddealltwriaeth pobl o ofal cymdeithasol yn ogystal â datblygiad polisi gofal cymdeithasol.



Sut ydych yn teimlo am yr holl brofiad?



Beth ydych chi nawr yn gobeithio fydd yn digwydd i argymhellion y Rheithgor Dinasyddion?

- Symud tuag at dorri'r cylch a rhoi pobl yn gyntaf go iawn
- Cymru hapusach
- I fod yn flaengyrch ar gyfer gweithredu gan y llywodraeth
- Fod y bobl â chyfrifoldeb yn eu cymryd o ddirif ac yn gweithredu'n addas
- Y bydd rhywun yn gwrando arnynt, yn eu deall ac yn ei rhoi ar waith
- Gobeithio yr ânt gerbron Llywodraeth Cymru i'w hystyried, a'u bod yn cael eu symud yn eu blaenau i wella ymarfer
- Eu bod yn cael eu cyflwyno i ddylanwadwyr allweddol a gwneuthurwyr penderfyniadau gydag atebion ymarferol yn hytrach na rhestr o rwystrau neu bethau negyddol
- Y byddan nhw'n cael eu defnyddio fel canllaw i ddarparwyr gwasanaethau wella gwasanaethau ble bo angen gwneud hynny
- Y cânt eu hystyried o ddifri ac y gweithredir arnynt gan Lywodraeth Cymru
- Eu bod yn rhoi mewnwelediad
- Eu bod yn dechrau ambell sgwrs dda
- Eu bod yn cael eu ffurfio mewn i rhyw faint o synnwyr cydlynol, ac yna'u bod yn cael eu gweld gan y bobl gywir ac yn cael eu hailwerthuso rywbyrd yn y dyfodol
- Fod atebolrwydd gan Gynulliad Cymru i wella gofal cymdeithasol yng Nghymru – a rhywfaint o ymrwymiad nid dim ond uchelgais
- Eu bod yn achosi newid go iawn

Argymhellion Y Rheithgor Dinasyddion

Daeth y Rheithwyr i sawl canlyniad o ran *beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol*? Mae'r argymhellion hyn yn adlewyrchu ehangder y materion a archwiliwyd a chymhlethdod y dasg a osodwyd i'r Rheithwyr. Maen nhw'n tynnu sylw at yr angen am drafodaeth barhaus ac am weithredu ystyriol er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn llwyddiannus.

Mynegodd y Rheithwyr edmygedd dros uchelgais y Ddeddf a'i daliadau craidd, ond cawsant eu drysu gan y systemau a'r prosesau oedd yn rhwystro, yn hytrach na helpu, ymarferwyr i ddod â'r Ddeddf yn fyw. Gan gydnabod mor enfawr yw'r her o ddarparu gofal da, roedd y Rheithwyr yn poeni fod parch a gwerth am bobl yn cael ei golli mewn profiadau beunyddiol o gael mynediad i wasanaethau.

Gellir crynhoi eu casgliadau a'u hargymhellion yn fras o dan dri o bedwar egwyddor y ddeddf fel y diffinnir hwy gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bedwaredd egwyddor, llesiant, yn cael ei gyflawni pan lwyddir i gyflawni'r egwyddorion eraill. Teimlwyd hefyd bod angen set ychwanegol o argymhellion yn ymwneud â Chraff ac Adolygu er mwyn cefnogi cyflawniad y Ddeddf.

Mae'r argymhellion hyn yn pwysleisio rôl pobl Cymru wrth siapio darpariaeth gofal cymdeithasol, gwerth ymgysylltu ystyrion a'r angen am weld datblygu gofal cymdeithasol fel proses barhaus a chydweithredol.

Pobl

Cytunai'r Rheithgor fod y system gofal cymdeithasol yn gymhleth ac un sy'n anodd llywio drwyddi, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl gael llais a rheolaeth; i gael y gefnogaeth orau, ac iddyn nhw deimlo'n hyderus fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu lles pennaf. Yn ogystal, teimlent fod gofawyr yn cael eu tanwerthfawrogi ac nad yw ieithwedd y systemau sydd yno i ddarparu cefnogaeth yn taro deuddeg gyda nhw.

Mae'r Rheithgor yn argymhell bod:

1 Dylai pob person sy'n dod i sylw'r system gofal cymdeithasol, a sectorau perthynol, boed nhw'n blentyn, oedolyn neu'n ofalwr, yn derbyn cefnogaeth gweithiwr allweddol annibynnol, diduedd a gwybodus, a fydd yn eiriol ar eu rhan ac yn sefyll wrth eu hochr:

- Ni ddylai fod yn frwydr i gael y gefnogaeth gywir: dylai prosesau leihau straen, nid ei greu
- Dylai cael mynediad i adnoddau ariannol fod yn uniongyrchol a hawdd ei ddeall
- Y person yn y lle gorau i ddarparu gwasanaeth ddylai fod yn gwneud hynny: fe all 'gorau' amrywio o berson i berson.

2 Mae angen i gynlluniau gofal a chefnogaeth barchu deilliannau dymunol yr unigolyn, a bod yn fwy holistig, fel bod y gwasanaethau'n addas i'r person, ac nid y ffordd arall:

- Canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud, ac y maen nhw'n dymuno'i wneud, ac nid yr hyn na alla nhw mo'i wneud
- Mae perthynas, boed bersonol, deuluol neu gyfeillgarwch cymunedol, yn hanfodol i lesiant a chefnogaeth. Mae angen gwreiddio'u pwysigrwydd yn y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol ym mhob cam
- Mae angen gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â phobl, yn enwedig y rheiny sydd ag anghenion ychwanegol a'r rheiny sy'n gaeth i'w cartrefi, i ddod o hyd i well ffyrdd o'u cynnwys yn eu cymunedau.

- 3 Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i ofalwyr er mwyn eu cydnabod, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel yr asedau hanfodol yr ydynt:**
- Dylid gweithredu mwy o amrywiaeth yn y dulliau, ieithwedd a delweddaeth a ddefnyddir i hybu gwasanaethau a chefnogaeth i ofalwyr
 - Dylai cefnogaeth i ofalwyr barhau i fod ar gael ar ôl iddyn nhw beidio â bod yn ofalwr, am fod hwn yn newid sylweddol ac anodd.
- 4 Rhaid gwneud y trosglwyddiad rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn llai trafferthus a dylid blaenoriaethu'r person ifanc yn well:**
- Dylai plant sydd mewn gofal preswyl fod yn gallu cael mynediad i gefnogaeth trawsnewid er mwyn hwyluso'u symudiad i fyw'n fwy annibynnol
 - Dylai gwasanaethau ddarparu mwy o hyblygrwydd yn eu cynnig a'u dull o ymwneud â phobl ifanc, gan alluogi iddynt dderbyn mwy o gefnogaeth sy'n hybu 'normalrwydd'.
- 5 Dylai unigolion a darparwyr gwasanaeth weithio ar y cyd fel partneriaid cyfartal, gan hybu gwneud penderfyniadau da a lleihau'r angen i herio penderfyniadau:**
- Dylid darparu cymorth cyfreithiol annibynnol i'r rheiny sy'n dymuno herio penderfyniadau
 - Rhaid cefnogi gwasanaethau statudol i ddysgu gwersi sy'n deillio o heriau cyfreithiol a'r penderfyniadau sy'n dod yn eu sgil.

Ymddengys fod gwasanaethau statudol yn meddwl fod disgwyliadau'r cyhoedd yn afrealistig o'i gymharu â'u gofidiau nhw. Gobeithiaf y byddan nhw'n ildio ychydig o'u grym er mwyn gweithio er lles y cyhoedd. Eu bod nhw'n myfyrio ar beth yw gwasanaeth cyhoeddus, beth yw gwasanaeth cymdeithasol? Pwy maen nhw'n ei wasanaethu mewn gwirionedd?



Partneriaeth ac Integreiddio

Roedd y Rheithwyr yn glir y gellid gwella dulliau o fynd i'r afael â phartneriaeth ac integreiddio, ac y dylent gael ffocws o'r newydd ar yr unigolyn a sicrhau fod yr unigolyn yn cael y gwasanaeth gorau iddo ef / hi. Teimlent fod tueddiad i bartneriaethau fod yn gyfyng eu rhychwant, a bod prosesau tendro'n rhwystro, yn hytrach na chefnogi gweithio ar y cyd a gweithio creadigol. Er bod cydnabyddiaeth yn cael ei roi i arfer dda ar draws sector gofal cymdeithasol, ystyriai Rheithwyr fod angen gwneud mwy i rannu, dysgu gan ac efelychu hwnnw.

Ni ddylai gofal cymdeithasol fod yn frwydr rhwng y bobl sydd angen y gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu, ac ni ddylai chwaith fod yn frwydr rhwng darparwyr y gwasanaeth. Mae'r darpariad holistig o wasanaethau sydd ei angen ar lawer, ac y mae'r Ddeddf yn ceisio'i darparu, yn galw ar i sectorau ledled Cymru i gael eu cefnogi a'u harwain i edrych i fyny ac am allan lawer iawn yn fwy.

Mae'r Rheithgor yn argymhell:

6 Mae angen mwy o gysondeb wrth ddarparu gofal cymdeithasol yn strategol ac yn weithredol ar draws Cymru, gyda hwyluso gwell bartneriaethau a chydweithio:

- Gwasanaethau symudadwy sy'n teithio gyda'r unigolyn ar draws lleoliadau os oes galw am hynny
- Ni ddylai gwasanaethau, fel gofal maeth ac ysgolion arbenigol, fod yn wahanol os yw rhywun yn symud ar draws ffiniau anweledig Awdurdodau Lleol.

7 Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn fwy tryloyw ac atebol, ac mae angen iddynt fod yn fwy agored i'r cyhoedd:

- Cynyddu cynrychiolaeth ac ymgysylltu gyda dinasyddion mewn ffordd mwy ystyrlon
- Rôl fandadol, a chyson, ledled Cymru, gan roi cyhoeddusrwydd i'w swyddogaeth, eu gweithgaredd a sut i gymryd rhan.



- 8 Mae angen diffinio cyd-gynhyrchu a'i wreiddio fel ymarfer a ddeallir ac a ddefnyddir gan bawb sy'n ymwneud â chreu, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol:**
- Rhaid iddi fod yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalgwyr i ddeall sut y gallant gyfrannu, a beth yw gwerth eu cyfraniad
 - Rhaid derbyn fod yn rhaid i bob corff statudol a gwirfoddol rannu grym er llesiant defnyddwyr
 - Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ystyried dinasyddion fel rhanddeiliaid, a darparu dulliau hygyrch o ymgysylltu ar eu cyfer, drwy edrych ar drafnidiaeth, lleoliad cyfarfodydd, a chwrdd â phob cost ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a gofalgwyr.
- 9 Mae angen i brosesau tendro a chomisiynu sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n darparu'n union beth sydd ei angen ar bobl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor:**
- Rhaid rhoi'r gorau i 'rasys i'r gwaelod' ble bydd costau isel yn rhagori, waeth beth fo'r oblygiadau mwy hirdymor i bobl
 - Mae angen osgoi cytundebau darparu gwasanaeth byrion iawn am eu bod yn creu ansicrwydd, ac yn arwain at ailddyfeisio'r olwyn gan bobl er mwyn sicrhau cyllid pellach
 - Am fod angen mentro er mwyn arloesi, mae angen rhoi ychydig mwy o raff i brosiectau peilot er mwyn iddynt allu dangos eu llwyddiannau
 - Ni ddylai gweinyddu 'arbed' arian fod yn ddrutach na'r arbedion a wneir.
- 10 Mae angen datblygu prosesau ac offer, a'u defnyddio'n effeithiol, i wreiddio gweithio'n dda mewn partneriaeth ac ar y cyd:**
- Datblygu llwyfannau ar gyfer rhannu arfer dda a dangos sut y mae'r arfer dda honno'n cael ei chyflawni
 - Rhannu'r hyn a ddysgir ac a ddeallir o ffynonellau eraill, gan gynnwys o gyfeiriad mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, cynlluniau a fethodd, y byd corfforaethol a gwledydd eraill
 - Bydd adnabod cryfderau a gwendidau sydd ynghylch cydweithio a dod o hyd i sefydliadau cyflenwol yn galluogi cynhyrchiant gwaith partneriaeth a consortiwm.



Atal

Cytunai'r Rheithwyr y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i wasanaethau a mesurau ataliol. Ystyriwyd bod cael gwybodaeth hygyrch, gweithlu cymhelledig a chefnogol, ynghyd â ffocws ar gefnogi annibyniaeth pobl yn hanfodol i ymyrraeth gynnar, gan leihau'r perygl o weld materion yn cynyddu, a chan hybu ymddiriedaeth mewn, ac o fewn, gofal cymdeithasol.

Ystyriai'r Rheithwyr bod gormod o agweddau o ofal cymdeithasol yn creu'r angen i bobl frwydro am gwasanaethau neu wybodaeth, ac y byddai systemau symlach yn hybu mynediad haws yn ogystal â thryloywder, ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

Mae'r Rheithgor yn argymhell:

11 Dylai cyrff statudol ddarparu gwybodaeth glir am eu gwasanaethau ac am y Ddeddf, gan sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad iddi a'i deall, waeth beth fo amgylchiadau, cefndir neu anghenion rhywun:

- Dylid cymryd balchder mewn creu eglurder i bobl, a dylid symud y pwysau am ddeall beth y mae person yn gymwys i'w dderbyn oddi ar unigolion a'i ddychwelyd at wasanaethau
- Dylid gweithredu synnwyr cyffredin, a dim ond unwaith y dylid cyfathrebu neges, er enghraifft, mae'r rheiny sydd wedi'u cofrestru'n ddall yn derbyn gwybodaeth mewn fformat sy'n addas ar gyfer eu technoleg sgrin-ddarllenydd
- Rhaid i'r Ddeddf ymateb i gymunedau amrywiol ac amlddiwylliannol Cymru, a hwyluso dulliau amrywiol o gyfathrebu, er enghraifft drwy ddysgu Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL) mewn ysgolion cynradd.

12 Dylid gwella'r system yn gyffredinol er mwyn peidio â pheri profiadau pobl yn gymhleth, a'i bod yn hawdd cael y gefnogaeth gywir:

- Mae angen gwneud prosesau cymhleth a darnau mawr o wybodaeth yn hawdd a rhwydd eu deall
- Ni ddylai profiadau pobl â gofal cymdeithasol effeithio'n andwyol ar eu iechyd meddwl.



13 Mae angen cydnabod gweithwyr y rheng flaen fel asedau hanfodol o fewn y sector gofal cymdeithasol a dylid gwella'u statws, datblygiad proffesiynol a chyflog i adlewyrchu hyn:

- Mae angen darparu hyfforddiant, a'r cyfle i'w fynychu, yn gywir er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol
- Dylid annog ymddiriedaeth rhwng gweithwyr yn y sector, gan eu hysbrydoli a'u caniatâu i herio'r status quo
- Dylid marchnata gyrfaoedd proffesiynol mewn gofal cymdeithasol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y rolau o fewn y sector ac sy'n apelio at ragor o bobl
- Dylid rhoi gwell tâl a thelerau ac amodau i weithwyr rheng flaen mewn gofal cymdeithasol.

14 Dylid annog pawb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i gofleidio technoleg newydd:

- Gall llawer o ddyfeisiadau newydd wella gofal a hybu annibyniaeth, gan gefnogi pobl i fyw'n hŷn â darpariaeth gwasanaeth llai dwys
- Efallai y bydd angen i ddarparwyr fod yn greadigol wrth feithrin ffynonellau lluosog o arbenigedd yng nghyd-destun eu dealltwriaeth o dechnoleg a'r ffyrdd y gellir ei ddefnyddio.



Craffu ac Adolygu


Drwy gydol eu trafodaethau, adnabu'r Rheithwyr fod angen gwella'r prosesau craffu ac adolygu a bod angen ymwneud â dinasyddion mewn ffyrdd mwy ystyrlon. Roedden nhw'n bryderus fod adroddiadau gan Gomisiynwyr yng Nghymru ar agweddau ar ofal cymdeithasol, ynghyd â chytundebau sy'n hysbysu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, yn cael eu hanwybyddu, neu heb gael eu deall yn dda, a'i bod hi'n anodd gweld eu heffaith wrth ddarparu gwasanaeth.

Cytunwyd rhyngddynt fod angen i brosesau craffu ac adolygu arwain at ddeilliannau diriaethol ac y byddai dulliau gweithredu trylwyr a thryloyw'n cefnogi gweithredu a chyflawni'r Ddeddf yn effeithiol.

Mae'r Rheithgor yn argymhell:

15 Dylai dinasyddion fod yn cymryd rhan ffurfiol mewn mwy o graffu ar y Ddeddf, a hynny'n ddyfnach, i adeiladu hyder yn y sector a sicrhau fod y Ddeddf yn cael ei chyflawni'n gywir:

- Proses 'Fe ddywedoch Chi, Fe Wnaethon Ni' mewn gofal cymdeithasol
- Rheithgor Dinasyddion blynyddol i gael ei ddarparu'n fyw i'r cyhoedd ledled Cymru
- Pob lefel o lywodraethiant i ddatblygu cyfeillgarwch beirniadol lleol ar sail dinasyddion, gan gryfhau'u perthynas â chymunedau a ffurfioli'u dull o ymwneud â mewnbyn dinasyddion ac ymgysylltiad â'r cyhoedd.




Agweddau'r Rheithwyr


Gofynnwyd i'r Rheithwyr nodi ar raddfa o 1 i 5, lle mae 5 yn gyfwerth ag 'anghytuno'n gryf' a 5 yn 'cytuno'n gryf', i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â set o ddatganiadau. Roedd y datganiadau hyn yn cynnwys 'mae gofal cymdeithasol yn gwella llesiant oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth', '... plant sydd angen gofal a chefnogaeth', a '...gofalwyr sydd angen gofal'. Roedden nhw hefyd yn cynnwys 'mae gofal cymdeithasol yn galluogi pobl i gael rheolaeth dros eu bywydau beunyddiol' a 'mae gofal cymdeithasol yn galluogi pobl i godi'i llais am eu gofal eu hunain'.

Daeth Rheithwyr ychydig yn llai cadarnhaol am ofal cymdeithasol erbyn diwedd y Rheithgor Dinasyddion, wrth i ymatebion glystyru tua chanol, ac ychydig is, ar y raddfa nag y gwnaethant cyn i'r Rheithgor gael ei gynnal, Cymedr y sgor ar draws y saith datganiad cyn y Rheithgor oedd 2.9, ac y cymedr ar ol oedd 2.6. Mae'r canlyniadau a ddatgelwyd gan y ddau ddatganiad a welwyd y symudiad mwyaf o ran teimladau i'w gweld isod ac maen nhw'n pwysleisio'r ysgogiad dros wneud sawl un o'r argymhellion a gynigiwyd.

Mae gofal cymdeithasol yn hybu urddas yr unigolyn



Mae gofal cymdeithasol yn helpu unigolion i gael yr wybodaeth gywir ar yr adeg gywir



Atodiad 1: Rhaglen Rheithgor

	Dydd Llun 24 Medi	Dydd Mawrth 25 Medi	Dydd Mercher 26 Medi
9.45am	<p>Neil Wooding, Cadeirydd Grŵp Llywio Mesur y Mynydd</p> <p>Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru</p> <p>Mark Llewellyn, Athro Polisi Iechyd a Gofal, Prifysgol De Cymru</p>	<p>Geraint Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cartrefi Cymru Cydweithredol</p> <p>Julie Boothroyd, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd, Cyngor Sir Mynwy</p>	<p>Adele Gilmour, Rheolwr Gwybodaeth a Chefnogaeth Cymdeithas MS Cymru</p> <p>Nick French, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Innovate</p> <p>Sally Jenkins, Cyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Marisa Moon, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's Cymru</p>
11.00am	EGWYL	EGWYL	EGWYL
11.15am	<p>Sheila Lyons, Rheolwr Gwella a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru</p> <p>Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Conwy, a Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Newid anghenion, newid gwasanaethau – panel o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhannu'u safbwyntiau</p>	<p>Meilys Heulfryn Smith, Uwchrholwr Trawsnewid, Cyngor Sir Gwynedd</p> <p>Joanne Bartlett, Ymgynghorydd Datblygu Cydweithredol, Canolfan Gydweithredol Cymru</p> <p>Tim Williams, Rheolwr, Hengoed Park Care</p>
12.30pm	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor
1pm	CINIO	CINIO	CINIO
1.30pm	<p>Cyllid, Integreiddio a hygyrchedd – panel o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhannu'u safbwyntiau</p>	<p>Sally Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Dinas Casnewydd</p> <p>Alex Williams, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Abertawe</p> <p>Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p>	<p>Rhwydweithiau, cefnogi a byw'n annibynnol – panel o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn rhannu'u safbwyntiau</p>
2.30pm	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor	Trafod ac Ystyried gan y Rheithgor



Atodiad 2: Datganiadau Tystion

Diwrnod 1 | Dydd Llun 24 Medi



Albert Heaney

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

Ein bwriad fel Llywodraeth Cymru yw y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn newid yn sylfaenol yr agwedd tuag at ofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu dull uchelgeisiol a chynaliadwy tuag at ofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'n cynnwys gweledigaeth hirdymor lle mae llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant a chyd-gynhyrchu wrth galon gofal cymdeithasol. Mae nifer o ddulliau newydd o weithio, gwasanaethau newydd a gweithgareddau wedi cael eu cyflwyno i hwyluso a chryfhau'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf ac sy'n symud gofal cymdeithasol yn nes at y weledigaeth hirdymor.

Ymysg y rhain y mae ffyrdd newydd o fynd o gwmpas rôl y mentrau cymdeithasol, y cymdeithasol cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r drydedd sector mewn gofal cymdeithasol; cyflwyno Partneriaethau Rhanbarthol i gefnogi cydweithio ac integreiddio; sefydlu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i gefnogi pobl i gael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt; gwasanaethau i gefnogi teuluoedd a phobl ifanc mewn gofal maeth; a gwell cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer llawer sy'n gweithio yn y sector.

Mae'r nodau a'r uchelgais a amlinellir yn y Ddeddf yn eang a rhaid ystyried llawer o bethau, ond rhaid cofio hefyd ei bod hi'n ddyddiau cynnar o hyd. Mae'r sector yn dal i fod mewn stad o drawsnewid, Y peth pwysicaf i ni yw gall gweld, yn ystod y camau cyntaf hyn, yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma, beth sy'n llwyddo, ble y mae angen gwneud gwaith pellach a sut y gallwn ni barhau i gefnogi'r newidiadau sy'n digwydd yn y system gofal cymdeithasol sy'n cael eu gyrru ymlaen gan y Ddeddf.



Mark Llewellyn

Athro Polisi Iechyd a Gofal & Cyfarwyddwr, Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru

Mae'r rheithgor hwn yn holi mewn sawl ffordd gwestiwn 'beth sy'n bwysig' – beth sy'n bwysig i ddinasyddion Cymru o ran eu gwasanaethau gofal cymdeithasol? Y rheswm pam fod hyn yn arwyddocaol yw ei fod yn dangos un o'r newidiadau hanfodol sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – fod gan 'beth sy'n bwysig' sail gyfreithiol am y tro cyntaf erioed.

Mae pum egwyddor sy'n sylfaen i'r Ddeddf – cyd-gynhyrchu, atal ac ymyrraeth gynnar, llesiant, aml-asiantaeth a llais a rheolaeth – a ddylai fod yn gyrru'r newidiadau y mae'r Ddeddf yn bwriadu'u rhoi ar waith. Mae'r egwyddorion hyn yn bwysig ac yn bethau prin i'w gweld yn cael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth – sy'n glod i'r llunwyr polisi a'r gwleidyddion a arloesodd gyda'r dull hwn yng Nghymru.

Serch hynny, mae yma her enfawr, sef ceisio deall beth yw ystyr mesur a gwerthuso gofal cymdeithasol a'i effaith ar unigolion. Mae Mesur y Mynydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at hyn. Ond erys anawsterau yn y ffordd yr ydym ni'n meddwl am wir ystyr 'effaith' a 'beth sy'n bwysig' i bobl yn amgylchiadau go iawn, anniben eu bywydau. Does dim o hyn yn hawdd, ond byddaf yn ceisio darparu rhai ffyrdd y dylai'r rheithgor feddwl am y dystiolaeth y byddan nhw'n ei chlywed dros y dyddiau nesaf.

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywydd presennol ADSSC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi trawsnewid yn sylfaenol ein dull traddodiadol o feddwl a'n ffordd o ddarparu 'hwb bach yn y cyfeiriad cywir' ar yr adeg pan fydd angen hwnnw fwyaf ar bobl. Dechreuodd Conwy feddwl am y newid hwn yn 2014 ac fe ymgwymerwyd â rhywfaint o ymchwil er mwyn ein helpu ni i feddwl am sut a beth roedd angen i ni ei wneud yn wahanol. Fe wna i roi cipolwg o'r ymchwil hwnnw, a dangos sut y cafodd ein gwasanaeth llesiant cymunedol ei ddatblygu. Byddaf yn dangos sut y mae'r dull hwn o fynd ati wedi cynnig mwy o gyngor a chymorth nag erioed o'r blaen i oedolion; sut y bu i ni aildrefnu cyllid craidd er mwyn llunio ymateb sy'n fwy seiliedig ar gymuned, gan weithio gyda'r drydedd sector yn lleol' a defnyddio technegau ymgysylltu gwahanol, hwyliog na fyddem ni, fel Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi'u darparu'n draddodiadol.

Byddaf hefyd yn dangos ein taith ar gyfer plant a theuluoedd, a datblygiad ein cyfle 'hyblygrwydd cyllido'. Mae hwn wedi derbyn statws braenaru, gan ein galluogi i ddangos sut y gellir defnyddio ystod o grantiau i gefnogi pobl mewn tloidi mewn ffordd wahanol. Mae datblygu cefnogaeth deuluol integredig ar draws asiantaethau mewn pum maes allweddol yn y cyngor wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a'u teuluoedd, yn ogystal â darparu gwasanaethau o safon sy'n gost-effeithiol yn gynt yn y broses, sydd wedi arwain at leihad o ran gweld angen darpariaeth ddrutach i blant yn hwyrach yn eu bywydau. Bydd hyn hefyd yn dangos manteision syniadau corfforaethol mawr mewn cynghorau'n dod ynghyd fel Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Sheila Lyons

Rheolwr Gwella a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal â chefnogi'r gweithlu, mae gennym gyfrifoldebau ar gyfer gwella'r gwasanaeth ac ymchwil iddo. Cawsom ein creu ym mis Ebrill 2017 gan ddwyn ynghyd Gyngor Gofal Cymru, a'r Asiantaeth Wella Gwasanaethau Cymdeithasol yn un sefydliad.

Fel Cyngor Gofal, gofynnwyd i ni ddatblygu cynllun dysgu cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf a chreu gwefan i ddal yr holl adnoddau ynglŷn â'r Ddeddf. Y bwriad oedd cael dull cyson o ymwneud ag addysgu ledled Cymru ac ymhob rhan o'r gweithlu. Roedd maint y dasg yn enfawr: mynychodd 8,000 o weithwyr sesiynau codi ymwybyddiaeth a chwblhawyd 12,000 modiwl hyfforddiant craidd yn 2016-17 yn unig.

Fe wnaethon ni werthuso ein gwaith, ac rydym ni'n gwybod ein bod wedi cael effaith: cynyddodd sgôr cyfartalog gweithiwr oedd yn meddu ar yr wybodaeth i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf o 40%. Roedd gweithio mewn partneriaeth ar y cynllun hyfforddi'n gryf iawn.

Gwyddom fod gennym ragor o waith i'w wneud i gefnogi'r gweithlu, Eleni, rydym ni'n gweithio gyda phartneriaid ar flaenoriaethau amlwg: gofal a chefnogaeth yn y cartref, dementia, plant mewn gofal a gofalwyr o blith y teulu. Rydym ni hefyd yn gweithio ar welliannau sy'n torri ar draws y meysydd hyn. Er enghraifft, mae gennym raglen waith i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol gyda'r modd y maen nhw'n gweithio gyda phobl i gyflawni'u deilliannau personol. Rydym ni'n gweithio gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau fod cymwysterau newydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn addas i'w pwrpas. Gall recriwtio a chadw staff da ym maes gofal cymdeithasol fod yn anodd, ac rydym ni wedi lansio ymgyrch recriwtio fawr.

Fel rheoleiddiwr y gweithlu, rydym ni'n defnyddio ein grymoedd i gefnogi gwelliant. Rydym ni'n gosod safonau ar gyfer cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol a chyrsgiau ar ôl cymhwyso. Rydym ni'n cyhoeddi Codau Ymarfer a chanllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr. Rydym ni'n gweithredu os yw'r ymarfer yn wael, er enghraifft gallwn ddileu gweithiwr oddi ar ein cofrestr fel na allan nhw weithio yn y sector mwyach. Rydym ni'n defnyddio'r hyn a ddysgw'n i gefnogi gwelliannau. Er enghraifft, rydym ni'n cyhoeddi canllawiau ar 'ffiniau proffesiynol' a 'bod yn agored ac onest pan fydd pethau'n mynd o chwith' am ein bod ni'n gwybod y gall y rhain fod yn bynciau heriol.

Rydym ni'n gosod blaenoriaethau ymchwil a addysgir gan dystiolaeth am yr hyn sydd angen cael ei wella.



Bod y dyfodol ychydig bach yn haws i'r cenedlaethau i ddod.

Diwrnod 2 | Dydd Mawrth 25 Medi

Geraint Jenkins

Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cartrefi Cymru Cydweithredol

Mae Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru, i fyw bywydau cyflawn, yn y cartref ac yn y gymuned. Rydym ni'n cefnogi pobl ag awtistiaeth, ymddygiad heriol, pobl hŷn, ac yn darparu seibiannau a chefnogaeth i ofalwyr.

Rydym ni'n edrych yn barhaus am ffyrdd o wella ein gwasanaethau, a ffyrdd o leihau aneffeithlonrwydd. Yng Nghaerfyrddin, ar ôl adnabod grŵp o bobl oedd yn rhwystredig â'r system bresennol, fe benderfynon ni dreialu dull newydd o weithio.

Yn yr ardal, roedd y galw am wasanaethau sesiynol a chymunedol ar gynnydd, a doedd y dull presennol o 'amser a gweithred' ddim yn ddigon hyblyg nac ymatebol i gwrdd ag anghenion pobl. Roedd hyn yn arwain at or-ddarpariaeth mewn rhai achosion, ac at wastraff yn y system.

Fe aethon ni ati mewn dull gwahanol oedd yn galluogi gweithwyr cymorth i ganolbwyntio ar anghenion penodol unigolyn. Eu cyfrifoldeb oedd darparu'r hyn oedd yn bwysig i bobl a gwneud hyn heb ystyried amseroedd na'r amllder a nodwyd yn y cynllun gofal.

Drwy roi mwy o reolaeth i'r unigolyn a'r gweithiwr cymorth, gellir darparu cefnogaeth pan fo'i angen yn hytrach na phan ddywedir y dylai ddigwydd. Mae hyn wedi ein galluogi i wneud mwy o waith ataliol, gwaith sy'n fwy pwysig i'r person sy'n derbyn cefnogaeth, mae staff yn teimlo wedi'u grymuso fwy, yn fwy gwerthfawr a bod mwy o ymddiriedaeth ynddyn nhw, ac mae pobl yn cael eu cefnogi gyda'r un arian.

Julie Boothroyd

Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd, Cyngor Sir Mynwy

Yn Sir Fynwy, fe ddechreuon ni ar ddull trawsnewidiol, am ein bod ni'n gwybod nad oeddem ni'n gwasanaethu pobl yn dda. Roedd ein proses asesu'n fecanyddol, ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar amser a thasg ac roedden ni'n cael llawer o alwadau / sŵn gan bobl anfodlon.

Roedd angen i ni edrych o ddifri arnom ni ein hunain a dad-ddysgu, a dechrau gwrando, proses oedd yn galw am i bawb gymryd rhan ac ymrwymo, a chydabod y gallem ni oll wneud lawer yn well.

Yn ei hanfod, mae'r cyfan yn ymwneud â pherthynas, gyda'n gilydd a gyda'r bobl rydym ni'n eu cefnogi. Mae'n ymwneud â symud rhwystrau ac ailffocysu ar yr hyn rydym ni'n ei wneud gyda phobl, nid ar gyfer y bobl rydym ni'n eu cefnogi.

I ddod i le gwell, rhaid i bobl ddarganfod hyn drostynt eu hunain, felly mae rhan fawr o'r broses newid wedi ymwneud ag ennill calonnau a meddyliau pobl a hwyluso'r gweithlu i symud i ddull gwahanol o ymarfer. Efallai fod hyn yn swnio'n hawdd, ond dyw e ddim; mae hi'n anodd dad-wneud y 20 mlynedd a mwy diwethaf o ddeddfwriaeth ac arferion gofal cymunedol. Drwy gymryd dull o weithio'n seiliedig ar systemau a chanolbwyntio go iawn ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, defnyddio pwrpas a ddiffiniwyd: helpu pobl i fyw eu bywydau'u hunain; a set o egwyddorion gweithredu allweddol, rydym ni wedi gallu ailbwrpasu sut rydym ni'n cefnogi pobl.

Bu'r daith yn go arw hyd yn hyn, ond mae'r canlyniadau'n dechrau dod. Mae gwasanaethau wedi trawsnewid y dull o ddarparu cefnogaeth. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth Care@home sydd wedi hen ennill ei blwyf ar draws y sir, yn canolbwyntio ar lesiant personol ac emosiynol cyn mynd i'r afael ag anghenion gofal personol: nodweddion allweddol y gefnogaeth a gynigir yw cyswllt â'r gymuned a phenderfynoldeb.

Bydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu gan weddill y sector fel rhan o brosiect trawsnewidiol mawr sy'n cael ei adnabod fel 'troi'r byd ben i waered'.

Mae'r canolbwyntio hwn ar berthynas a chymuned wedi bod yn allweddol i ddatblygu sawl dull o fynd ati sy'n seiliedig ar le, sy'n edrych ar y posibilrwydd o gefnogi pobl i fod yn llai ynysig yn gymdeithasol ac yn fwy cysylltiedig â'u bywydau a'u cymunedau, gan gynyddu'u llesiant o ganlyniad.

Mae My Mates yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddod o hyd i gyfeillgarwch a chysylltiadau ac i fyw bywydau gweithgar yn annibynnol, Mae hyn yn tyfu o nerth i nerth, ac yn ddiweddar fe enillodd wobwr clod gofal cymdeithasol.

Sally Jenkins

Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Dinas Casnewydd

Alex Williams

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Abertawe

Dave Street

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Yn ystod y sesiwn banel, fe wnaeth Sally, Alex a Dave siarad am newidiadau sylweddol sydd wedi cael eu ysbrydoli gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fe amlygant heriau y maent, a mae'r gwasanaeth yn gwynebu, yn awr ac yn y dyfodol, wrth iddynt drafod realiti a dichonoldebau darparu gwasanaeth.



Diwrnod 3 | Dydd Mercher 26 Medi

Adele Gilmour

Rheolwr Gwybodaeth a Chefnogaeth Cymdeithas MS Cymru

Mae My MS, My Rights, My Choices yn brosiect gan Gymdeithas MS Cymru sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth lawn i bobl ag MS a'u gofalmwr ledled Cymru.

Ceir 4 aelod o staff yn gweithio ar y prosiect ac rydym ni wedi recriwtio 27 Gwirfoddolwr Gwybodaeth a Chefnogaeth sy'n helpu i ddarparu'r prosiect. Ein bwriad yw cyrraedd at 1100 o bobl ag MS a'u gofalmwr dros 3 blynedd oes y prosiect, Ebrill 2017-2020.

Rydym ni'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau rheoli'r cyflwr bob blwyddyn. Mae'r rhain yn unigryw i'r prosiect ac nid ydyn nhw'n cael eu cynnal unrhyw le arall yn y DU. Rydym ni'n cynnal Diwrnodau Diagnosis Newydd, ar y cyd â'r timau iechyd MS arbenigol, i bobl sydd wedi derbyn diagnosis o MS yn ystod y 5 i 12 mis diwethaf.

Mae'r diwrnodau hyn yn canolbwyntio ar ddeall beth yw MS a pha gymorth sydd ar gael i gefnogi pobl wrth iddyn nhw fynd ar daith gyda'u cyflwr.

Rydym ni hefyd yn cynnal diwrnodau gwybodaeth a Byw'n Dda gydag MS i'r bobl hynny sydd wedi derbyn diagnosis ers tipyn o amser, ac mae'r diwrnodau hyn yn canolbwyntio ar lesiant ac ymdopi â byw gyda'r cyflwr. Mae llawer o'n gwaith ni, serch hynny, yn waith un i un: mae gan bob un o'r 4 aelod staff lwyth gwaith o dros 70 o bobl, y byddwn ni'n eu cefnogi â materion fel mynediad i ofal cymdeithasol, cyngor ar fudd-daliadau a grantiau, problemau cyflogaeth neu dai, neu gefnogaeth i gael pobl i glywed eu llais.

Yn ystod 18 mis cyntaf y prosiect, rydym ni wedi cefnogi bron i 300 o bobl ar sail un i un, ac mae'r prosiect yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi cymorth unigol i bobl, am fod hwnnw'n gallu rhoi cyfle i bobl fod yn fwy agored, ac yn y pen draw, gael cyflawni mwy o'u hanghenion.

Nick French

Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Innovate

Tua diwedd 2016, dechreuodd Ymddiriedolaeth Innovate archwilio'r posibiladau a gynigiwyd gan ddyfeisiadau a weithredir â llais, fel Amazon Echo. Ymddangosai ei bod hi'n bosib y gallai'r cyfleoedd a ddarperid gan yr IOT (Rhyngrwyd Pethau) cynyddol, gwella rhagolygon llawer o bobl a gefnogid gan yr elusen, ar y cyd â phrociau i'r cof a phethau i atgoffa.

Mae'r dyfeisiadau hyn a'r cymhwysiannau sy'n gysylltiedig â nhw wedi darparu mwy o annibyniaeth i rai o'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth gennym: symud ymlaen i fwy o annibyniaeth a llai o ddibyniaeth ar gefnogaeth staff neu allu i ymwneud yn syml a rheoli pethau yn eu hamgylchedd eu hunain, fel cynnau golau neu reoli'r teledu. Rydym ni wedi ffynonellu, archwilio ac ymchwilio i'r posibiladau a gynigir gan sawl dyfais i ddefnyddwyr sydd ar gael yn hawdd, gan greu ein dolenni cydnaws ein hunain mewn rhai achosion drwy ddefnyddio Raspberry Pi (cyfrifiaduron bychan iawn a rhad).

Rydym ni'n gosod dyfais Amazon Echo Plus ym mhob un o'r Lleoliadau Byw â Chymorth a reolir gennym yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac rydym wedi partneru â dwy gymdeithas dai i'w cefnogi i ddatblygu 'cartrefi clyfar'.

Rydym hefyd wedi sefydlu partneriaeth gyda thŷ clyfar Caerdydd a'r Fro yn Llanisien (JES), ble rydym ni wedi gosod sawl dyfais a weithredir â llais, ac rydym ni wrthi ar hyn o bryd yn addasu cynnyrch sydd yno eisoes – lifft grisiau ar hyn o bryd – i ymateb i weithio ar sain llais. Mae'r therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio gyda ni yn arbennig o gyffrous am y potensial i gadw pobl yn eu cartrefi'u hunain drwy ehangu defnydd ymhellach o ddyfeisiadau a reolir â llais a symudiad.

Mae ein helusen wedi cychwyn ar bartneriaeth gyda'r Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ar y cyd rydym ni'n mynd i fod yn creu mwy o brosiectau ymchwil sy'n canolbwyntio ar lesiant. Rydym hefyd yn gobeithio cynnwys technolegau tracio â llygaid a dyfeisiadau tonnau ymennydd yr ydym eisoes wedi'u dod o hyd iddynt i'n helpu ni i gynyddu'r potensial o gyrraedd at y bobl sy'n cael eu heffeithio waethaf o ran namau.

Ein gobaith yw y caiff ein syniadau a'n hymchwil barhaus ei rhannu, ei haddasu a'i datblygu ymhellach, ar draws y sector gofal cymdeithasol ac ehangach. Byddwn ni'n parhau i archwilio, datblygu a harneisio technolegau defnyddwyr o'r fath sydd ar gael yn hawdd, dros y blynyddoedd i ddod er mwyn cwrdd yn y ffordd orau posib ag anghenion y bobl a gefnogir gennym.

Sally Jenkins

Cyngor Dinas Casnewydd

Marisa Moon

Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's Cymru

Ffurfiodd Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) a Barnardos Cymru bartneriaeth gydweithrediadol i ddarparu gwasanaethau cefnogi teuluoedd drwy gyfrwng y Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig (Integrated Family Support Services (IFSS)). Mae'r gwasanaeth yn cyd-leoli tîm o weithwyr a reolir ar y cyd gan CDC a Barnardos. Mae'r ddau barti'n ymrwymedig i weithio cydweithrediadol gyda dull aml-asiantaethol.

Bwriad y cydweithrediad yw darparu cefnogaeth ddwys ar sail tystiolaeth i deuluoedd ag anghenion gofal cymdeithasol cymhleth. Mae'r tîm yn gweithio'n ddwys i sefydlogi sefyllfaoedd teuluol er mwyn i'r plant allu aros gartref gyda'u rhieni'n ddiogel neu ddychwelyd adref yn fuan gyda chefnogaeth. Ffocws yr ymyriad yw galluogi rhieni i wella'u gallu i rianta, adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli eisoes a chynyddu'u gwydnwch, wrth leihau ffactorau risg i'r plant.

Mae'r trefniant Partneriaeth rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardos yn cynnwys ymrwymiad hirdymor i ddatblygu gwasanaeth cefnogi teuluoedd ar y cyd, ynghyd â lefel uchel o ymrwymiad cyllido craidd o'r ddwy ochr. Mantais y bartneriaeth fu'r gallu i dyfu gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth cryf, wrth i ni allu ystywytho trafod a datblygu gyda'n gilydd i wella deilliannau ar gyfer plant.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn ein hatgoffa mai'r arfer orau yw defnyddio dulliau aml-asiantaethol a ffurfio partneriaeth gref rhwng pob asiantaeth a sefydliad, wrth i integreiddio fod yn yrrwr newid allweddol. Mae'r bartneriaeth gydweithrediadol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardos yn ymgorffori gweledigaeth y Ddeddf ac yn rhoi'r dull cyd-gynhyrchu yma ar waith i ddarparu cefnogaeth deuluol effeithiol ac integredig.

I fod yn ofalwr, does dim angen gradd arnoch chi; does dim angen i chi gael prentisiaeth. Does dim rhaid cael cyfweliad, hyd yn oed.

Meilys Heulfryn Smith

Uwch-reolwr Trawsnewid, Cyngor Sir Gwynedd

Yng Ngwynedd, rydym ni wedi wynebu prinder capasiti ar gyfer gofal yn y cartref, cynnydd mewn galw, tyndra rhwng comisiynwyr a darparwyr a llawer o broblemau'n ymwneud â thelerau ac amodau'r gweithlu.

Fe wnaethon ni benderfynu aiddylunio ein holl system gofal yn y cartref. Roeddem ni am i bob person oedd angen cymorth dderbyn yr help oedd ei angen arnynt i fyw bywyd fel y bydden nhw'n dymuno gwneud. Mapiwyd y system gofal yn y cartref o un pen i'r llall gan yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a Cartrefi Cymru (darparwr yng Ngwynedd). Fe wnaethon ni ddysgu ein bod ni'n rhoi pobl mewn slotiau amser pan allai gofalwyr ymgymryd â thasgau penodol, ein bod ni'n gwario llawer o arian ar weithgareddau gwastraffus, ac yn y pen draw, fod yr hyn oedd yn bwysig i bobl yn cael ei anwybyddu i bob pwrpas.

Fe wnaethon ni sefydlu peilot mewn un dref yng Ngwynedd pan ddaethon ni â gweithwyr gofal yn y cartref, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd cymunedol ynghyd i weld ar y cyd beth oedd yn bwysig. Doedd gofalwyr ddim yn derbyn rota. Eu briff oedd deall beth oedd yn bwysig i bobl, eu helpu i gyflawni hynny a gweld a allen nhw gamu'n ôl a gadael i rwydweithiau personol a chymunedol gynnig cefnogaeth.

Drwy dreulio mwy o amser yn y cam 'asesu', a chynnwys ystod eang o bobl yn y gwaith hwnnw, a thrwy gyd-gynhyrchu atebion gyda phobl, fe welson ni ostyngiad yn y galw (dros 50% yn gyfangwbl). Fe welson ni hefyd fod bodlonrwydd pobl yn eu swyddi'n uwch a, thrwy leihau gwastraff yn y system, ein bod ni'n gallu anelu at ailgyfeirio costau oedd yn ymwneud â biwrocratiaeth i gyfeiriad gwell cyflog a thelerau ac amodau i staff.

Doedd hen ŵr unig ddim yn cael derbyn ymweliadau gan ei fab, sydd ag anabledau dysgu, oherwydd cyflwr ei dŷ. Aeth y tîm ati i lanhau'r tŷ, helpu'r gŵr i adennill ei hunan-barch a'i alluogi i ailgysylltu â'u fab. Dyma un enghraifft sy'n dangos sut y bu i'r gwasanaeth ymdrin â rhywbeth oedd yn bwysig (yn hytrach na darparu gofal personol a gweld popeth arall fel problem i rywun arall).

Rydym ni bellach yn rhoi'r model newydd hwn o ofal yn y cartref ar waith ledled Gwynedd. Bydd cytundebau darparwyr yn eu lle erbyn haf 2019, gyda rhaglen o newid diwylliannol n parhau y tu hwnt i hynny.

Joanne Bartlett

Ymgynghorydd Datblygu Cydweithredol, Canolfan Gydweithredol Cymru

Mae Care to Co-operate yn brosiect a ddarperir gan Ganolfan Gydweithredol Cymru. Mae'r prosiect yn cefnogi rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar waith.

Fe'i sefydlwyd i arwain ar beri bod y gyrwyr polisi 'cyd-gynllunio a chyd-ddarparu' yn rhywbeth oedd yn digwydd go iawn o fewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw 'galluogi dinasyddion a darparwyr gwasanaethau i ddod ynghyd i ddatblygu dull cydweithredol o fynd ati i gyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant yn lleol.'

Rydym ni'n cyflawni hyn drwy ddarparu cefnogaeth fusnes wedi'i theilwra'n unigol gan ddefnyddio dulliau addas sy'n cynnwys gweithdai, cyflwyniadau, ein gêm fwrdd Ffordd i Gydweithredu ac offer arall y gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan: <https://care.wales.coop>

Tîm bach o bedwar ydym ni: un ymgynghorydd busnes yr un ar gyfer gogledd a de Cymru, gweinyddwr a rheolwr. Rydym ni'n ymestyn dros Gymru gyfan i ble bynnag y mae ein hangen. Ariennir Care to Co-operate drwy gyfrwng Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. A ninnau yn ein trydedd flwyddyn o raglen ariannu dair blynedd o hyd, gobeithir mai dyma ddechrau ein taith yn unig, a bod cyllid pellach yn sicr o ddod.

Yn ystod y cyflwyniad rhoddir dwy enghraifft i chi o bryd a sut y mae dinasyddion sy'n derbyn cymorth wedi dod ynghyd i gyd-gynllunio a chyd-gyflenwi gwasanaeth.

Y cyntaf fydd 'Cwtch Together'; grŵp o rieni a gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn cefnogi Awdurdod Lleol Caerdydd i gyd-gyflenwi darpariaeth chwarae gynhwysol ar gyfer plant ag anawsterau dysgu ac anabledau, eu brodyr a chwiorydd, rhieni a gofalgwyr. Mae'n beryg na fydd gan yr Awdurdod Lleol gyllid i barhau â'r ddarpariaeth yn y dyfodol, felly cefnogwyd Cwtch Together i gofrestru fel Sefydliad Elusennol Corfforedig â'r bwriad o ddatblygu aelodaeth a all barhau i gyflenwi drostynt eu hunain.

Yr ail yw Gwasanaeth Cefnogi Cyfieithu Byddar Conwy – gwasanaeth anghorfforedig a arweinir gan ddinasyddion sydd wedi dod o hyd i ffordd o ddarparu sesiynau cyfieithu a chefnogi i'r gymuned fyddar ar ran yr awdurdod lleol ac yn breifat am brisiau fforddiadwy.

Tim Williams

Rheolwr, Hengoed Care

Mae Hengoed Court a Hengoed Park yn gartrefi gofal teuluol yn ardal Abertawe, sy'n darparu gofal a chefnogaeth i bobl hŷn. Mae llawer o'r bobl a gefnogir wedi derbyn diagnosis dementia, neu mae angen gofal nyrsio arnynt. Mae nifer fach o gleientiaid ond angen gofal personol a chefnogaeth leiafswm. Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Sir amrywiol yn Abertawe ac o gwmpas i dderbyn lleoliadau, yn ogystal â sawl Bwrdd Iechyd. Rydym ni hefyd yn derbyn cleientiaid preifat. Gweledigaeth droswaol Hengoed Care yw edrych yn barhaus ar ffyrdd o wella ansawdd bywyd y preswylwyr a gefnogir gennym, ynghyd â'r staff a'r teuluoedd rydym ni'n gweithio ochr yn ochr â nhw.

Cred Hengoed Care yw bod iechyd a llesiant o'r pwys mwyaf er mwyn gwella ansawdd bywyd unigolyn.

Dau faes o ffocws i ni sy'n gwneud newid cadarnhaol o fywydau ein preswylwyr yw:

- Ymwneud â'r awyr agored
- Ymwneid â'r gymuned

Dangosir fod treulio amser tu allan wedi cael budd iechyd a llesiant profedig: mwynhau llecynnau glas a bywyd gwyllt, mynd am dro ac anadlu'r awyr iach, garddio, lle tawel i hel atgofion ac ati.

Datblygwyd ein prosiect natur awyr agored dair blynedd yn ôl a thros y misoedd diwethaf rydym ni hefyd wedi cyflwyno encil mwytho anifeiliaid sy'n hygyrch yn y gofod glas. Mae gennym ferlod a achubwyd, defaid, hwyaid, cwingod ac adar mewn adardy. Mae ymwneud y preswylwyr â'r encil anifeiliaid wedi creu cyffro, hwyl, pwrpas a synnwyr o berchnogaeth ac ymdeimlad o 'gartref a theulu' gan effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant unigolion.

Rydym ni wedi gweld teuluoedd ac wyrion yn dymuno treulio cyfnodau hirach o amser gyda'u hanwyliaid drwy fwynhau'r awyr agored, garddio gyda'u gilydd, a chael hwyl, Roedd preswylwyr â dementia'n profi gwell patrymau o gwsg a llai o ymddygiad heriol, synnwyr llesiant mwy dedwydd o ganlyniad i fwydo / mwytho'r anifeiliaid, mwy o dymer gadarnhaol, cynnydd mewn hunan-barch a hyder o ganlyniad i ymwneud yn fwy â'r gymuned ehangach.

Bydd pobl sy'n byw yn yr ardal leol yn ymweld â'r parc natur yn rheolaidd, sydd wedi creu cyfleoedd i breswylwyr gwrdd â'r gymuned ehangach a chreu cyfeillgarwch newydd, gan deimlo'n rhan o'r 'darlun ehangach'. Bydd grwpiau ysgolion yn ymweld, sydd wedi creu cyfleoedd gweithio mewn partneriaeth rhwng y cenedlaethola fel prosiectau cyfaill drwy'r post, ffeiriau, grwpiau rhiant a phlentyn a digwyddiadau tymhorol.

Mae'r gofod awyr agored wedi darparu cyfleoedd ble gall teuluoedd gofio am anwyl yn sydd wedi marw mewn cartref gofal, gan wneud gwahaniaeth i'w llesiant. Mae sawl perthynas wedi dod â choeden goffa neu fainc a leolir o gwmpas y parc natur, er mwyn iddyn nhw allu parhau i deimlo'n rhan o Hengoed Care wrth iddyn nhw ymweld a chofio am eu hanwyliaid.

Atodiad 3: Arolygon Rheithwyr

Beth ydych chi'n gobeithio 'i ennill gan y Rheithgor Dinasyddion?

- Y bydd ein cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol yn elwa o'r holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt
- Fod y Ddeddf yn cael ei gweithredu a'i deall gan bobl broffesiynol a'r cyhoedd fel ei gilydd
- I gael bod yn rhan o rywbeth sydd â'r potensial i fod yn gadarnhaol iawn ac i wneud gwahaniaeth
- Synnwyr o symud ymlaen, gwneud gwahaniaeth
- Gallu gwneud gwahaniaeth a werthfawrogi'r modd y comisiynir ac y darperir gofal cymdeithasol
- Gwybodaeth a phrofiad
- I helpu datblygu agweddau newydd at ofal cymdeithasol yng Nghymru
- Ymwneud ag adnabod pethau cadarnhaol a negyddol er mwyn effeithio gwelliant hirdymor i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr
- Ymdeimlad o gyflawni rhywbeth

Disgrifiwch sut rydych chi'n teimlo am fod yn rhan o hyn?

- | | |
|----------------------|-------------------|
| • Breintiedig | • Â meddwl agored |
| • Angerddol | • Wedi fy mhlesio |
| • Nerfus | • Hapus |
| • Disgwylgar | • Brwdfrydig |
| • Gobeithiol | • Parchus |
| • Yn llawn diddordeb | • Chwilfrydig |
| • Cydymdeimladol | • Dan gyfaredd |
| • Meddylgar | • Cadarnhaol |
| • Rhwystredig | • Ymholgar |
| • Cyffrous | • Balch |
| • Optimistaidd | • Emosiynol |



Gobeithiaf y bydd pobl yn cael clust i'w clywed o'r diwedd, eu bod yn cael eu gweld fel cyd-gynhyrchwyr yn hytrach na threth ar adnoddau, a bod cydnabyddiaeth yn cael ei roi i'r ffaith fod yr wybodaeth a'r syniadau gorau'n gallu dod oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth / gofalwyr weithiau.

Gobeithion ac Ofnau

Gobaith y Rheithwyr, yn fawr iawn, oedd y byddai'r Ddeddf yn rym er lles, ac y bydd yr amcanion a ymgorfforir ynddo'n dod yn graidd i'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol, ond gobaith pell iawn oedd hyn i bawb.

Yn nes at y presennol, gobeithient y byddai pobl yn gallu cael eu cynnwys yn well mewn strwythurau presennol o ran rhannu, adolygu a datblygu'r gwasanaeth; y gellid datblygu partneriaethau mwy ystyrlon ar draws sectorau a gwasanaethau; ac y gallai darparwyr ganolbwyntio ar bobl oedd angen cefnogaeth.

Canolwyd ofnau'r Rheithwyr ar gyllid, diffyg gweithredu a'r anghyswllt rhwng haenau'r system gofal cymdeithasol, ac yn fwy hanfodol rhwng y system gofal cymdeithasol a'r bobl y mae'r gwasanaeth yno i'w cefnogi. Ymysg ymatebion cyffredin roedd:

- Bod newid cadarnhaol yn rhy anodd i'r system ei gyflawni ac felly y bydd, i raddau helaeth, yn cael ei anwybyddu
- Bod ffocws ar sgwrs ac adolygu a dim hanner digon o weithredu. Cafwyd dwy flynedd i baratoi am y Ddeddf ac eto nid yw'r prosesau cyflenwi clir, yr adnoddau na'r canllawiau sydd eu hangen er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith ar gyfer y rheng flaen a defnyddwyr ddim yno.
- Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r modd y byddai cyni a gwasgfeydd eraill yn gwasgu ar ofal cymdeithasol a sut y mae pobl, a'r systemau y maen nhw wedi'u cael eu hunain yn rhan ohonynt, yn sownd yn y fan: nid ydyn nhw'n gwybod sut i newid ac nid ydynt yn cael eu cefnogi i ddysgu
- Mae arian yn cael ei wastraffu: mae'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau yn canolbwyntio mwy ar arian nag ar bobl. Mae hyn yn tynnu sylw oddi wrth y meysydd ble mae gwir angen
- Hanfod y Ddeddf yw ei chyfran fwyaf hanfodol felly rhaid i hwnnw gael ei droi'n ddarparu gwasanaeth ystyrlon

Beth yw'r peth mwyaf arwyddocaol a ddysgoch chi o fod yn rhan o'r broses hon?

- Mae yma gylchoedd sydd angen eu torri
- Mae'r ddeddf yn ceisio cyrraedd dull mwy person-ganolog o weithredu
- Cymaint o broblemau a phrofiad cyffredin sydd gennym oll
- Enghreifftiau addawol o waith da gan nifer o bobl
- Mae'n ffordd ddynol iawn o ymgysylltu â data – gan adlewyrchu hanfod y Ddeddf
- Mae themâu cyson sy'n ailymddangos yn rheolaidd ar draws pob maes o ofal cymdeithasol
- Mae dwy ochr darlun cymhleth iawn yn aml yn bell oddi wrth ei gilydd
- Wynebir llawer o heriau gan bawb, ac maent yn cael eu taclo'n unigol
- Mae brwydr yn air a ddefnyddir yn rhy aml
- Cymhlethdod rhoi newid cadarnhaol ar waith o fewn gofal cymdeithasol hyd yn oed pan allai arbed arian ac atal argyfwng.

Ni ddylai cael cynnig cefnogaeth fod yn ddibynnol ar fethu.

Atodiad 4: Mesur y Mynydd

Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- Interlink
- Swyddfa Ystadegau Genedlaethol
- Llywodraeth Cymru
- Tempo
- Prifysgol De Cymru
- Cartrefi Cymru Cydweithredol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cydgynhyrchu Cymru
- Anabledd Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Plant yng Nghymru
- GIG Cymru
- Partneriaeth Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf
- Ysgol Cymru dros Ymchwil Gofal Cymdeithasol
- Cyfundeb Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru



Er mwyn cyflawni deilliannau personol gwirioneddol yn unol â'r Ddeddf, mae angen unioni pethau'n well rhwng prosesau a deddfwriaeth – mwy o ryddid i ganolbwyntio ar yr unigolyn a'i dewisiadau.

Cydnabyddiaethau

Hoffai Grŵp Llywio Mesur y Mynydd fynegi'u diolchgarwch enfawr i bawb a helpodd â'r prosiect mewn unrhyw fodd. Yn enwedig, yr hwylusydd, y tystion a phawb a rannodd eu straeon am ofal cymdeithasol a helpodd i addysgu sut y bu i'r prosiect ddod i siâp.

I gloi, diolch enfawr i'r Rheithwyr: Annie Galt, Bill Fawcett, Charlotte Whitney, Chris Kemp-Philp, Craig Lloyd, David Hawker, Grahame Nelmes, Jacqui Caldwell, Janet Morgan, Karen Berrell, Leighton Morris, Philip Westcott, Sara Flay a Tegwen Knox: hebddyn nhw, ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosib.